

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
DYDDIAD	8 Hydref 2026
TEITL	Cyfarfodydd Herio Perfformiad
PWRPAS YR ADRODDIAD	I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad mewnol yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.
2. Yn dilyn galwadau gan y Fforwm Craffu ac aelodau'r pwyllgorau craffu mae bwriad i beilota gwadd dau gynrychiolydd o bob pwyllgor craffu i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad mewnol un adran. Bydd disgwyl i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl yn ffurfiol i'w pwyllgor neu'r cyfarfod anffurfiol ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.
3. Y meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor yma yw Addysg, Cyfreithiol, Cyllid, Economi a Chymuned, a Gwasanaethau Corfforaethol. Dyma'r dyddiadau sydd wedi eu pennu gan yr adrannau ar gyfer y cyfarfodydd herio perfformiad nesaf.

Meysydd Gwaith	Pryd
Addysg	3 Tachwedd 2026
Cyfreithiol	27 Hydref 2026
Cyllid	20 Hydref 2026
Economi a Chymuned	2 Tachwedd 2026
Gwasanaethau Corfforaethol	20 Hydref 2026

4. Argymhelliad y Fforwm Craffu yw y dylai cynrychiolwyr y pwyllgor fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Addysg.
5. Bydd disgwyl i'r aelodau fynychu'r cyfarfod, gwrandao ar y drafodaeth ac adrodd yn ôl i aelodau'r pwyllgor (gweler atodiad 1) unai yn y cyfarfod ffurfiol neu anffurfiol.
6. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Addysg.**